# Rhagarweiniad

Mae HMPPS yng Nghymru a Heddlu Gwent yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau MAPPA i atal pobl rhag dioddef niwed difrifol. Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel yw'r flaenoriaeth bwysicaf i HMPPS yng Nghymru a Heddlu Gwent ac mae'r gwaith a wneir drwy MAPPA yn hynod bwysig i gyflawni hyn.

Mae gan ddioddefwyr a'r cyhoedd hawl i deimlo'n ddiogel ac wedi eu hamddiffyn. Er nad yw byth yn bosib dileu risg yn llwyr, mae angen cymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr hysbys. Dyfeisiwyd MAPPA i ddod ag asiantaethau at ei gilydd i helpu i reoli a lleihau'r risg yma.

Gwarchod y cyhoedd yw'r flaenoriaeth bwysicaf i HMPPS yng Nghymru, Heddlu Gwent a'r holl asiantaethau yn MAPPA ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu penderfyniad pob un ohonynt i sicrhau bod y maes gwaith pwysig hwn yn aros ar frig yr agenda. Ymfalchïwn yn ein staff, eu llwyddiannau blaenorol a'u hymrwymiad parhaus i ragoriaeth ar gyfer MAPPA yng Nghymru.



Amy Rees
Cyfarwyddwyr Gweithredol
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (Cymru)



Julian Williams
Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i’r carchar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | 1 | 2 | 4 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 1 | 1 | 2 | 4 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 0 | - | - | 0 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 0 | - | - | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 119 |

Cyfrifwyd y ffigur hwn yn defnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth canol 2016: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o’r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Tudalen leol

Mae cynnydd cyson a sylweddol wedi'i wneud yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf. Mae Is-bwyllgorau Bwrdd Rheoli Strategol (SMB) MAPPA Gwent wedi datblygu ac ehangu'n llawer mwy na'r disgwyl. Mae gwaith y Bwrdd bellach yn fwy integredig a chysonedig i sicrhau bod tystiolaeth glir a ffocws ar welliannau parhaus fel y nodwn yn ein Cynllun Strategol Blynyddol MAPPA. Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi parhau i wella gan adlewyrchu'r twf mewn gwaith partneriaeth ar draws Gwent. Rydym bellach yn canolbwyntio mwy ar hyrwyddo'n well y gwaith cadarnhaol a wneir gan MAPPA yng Ngwent, gan adeiladu perthynas effeithiol ag asiantaethau partner a rhannu arferion da ar draws Cymru i sicrhau bod gan gymunedau lleol hyder yn MAPPA ac mewn gwaith Gwarchod y Cyhoedd.

Dros y 12 mis diwethaf mae SMB Gwent wedi goruchwylio rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer yr Awdurdodau Cyfrifol (RA), asiantaethau DTC ac asiantaethau partneriaeth, gyda dros fil o staff yn mynychu a datblygu eu dealltwriaeth o waith MAPPA. Y gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth a'r ffordd y rheolir troseddwyr MAPPA yn y gymuned. Bydd y bartneriaeth newydd yn parhau i hyrwyddo ac annog gweithio'n gydweithredol ond hefyd yn ceisio adeiladu rhwydweithiau cefnogol i droseddwyr a gwella ffactorau gwarchodol er mwyn lleihau'r risg o niwed. Mae SMB Gwent yn ffyddiog y bydd y dull newydd hwn yn cyfrannu at y gwaith sydd eisoes yn digwydd i leihau'r risg o niwed ac aildroseddu yng Ngwent.

## Cysylltiadau Allweddol

**Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol**
**Arweinydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**
Nic Davies
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Swyddfa Prawf Caerffili
Centenary House
Uned 1 De Clare Court
Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy
Caerffili
CF83 3HU

**Arweinydd yr Heddlu**
Leanne Brustad
Ditectif Uwcharolygydd
Pencadlys Heddlu Gwent
Turnpike Road
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2XJ

**Arweinydd Carchardai Ei Mawrhydi**

Llywodraethwr
Carchar HMP Brynbuga / Prescoed
102 Maryport Street
Brynbuga
NP15 1AH

**Cydgysylltydd MAPPA**
Guy Browett
Swyddfa Prawf Caerffili
Centenary House
Uned 1 De Clare Court
Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy
Caerffili
CF83 3HU

